YSGOL BRYNREFAIL

PATAGONIA

Ar ddechrau'r flwyddyn newydd fe ddaeth newyddion gwych i Ysgol Brynrefail. Fe ddewiswyd, o'r chwith i'r dde, Manon Elwyn, Gethin Griffiths a Bronwen Price gan Urdd Gobaith Cymru yn rhan o griw fydd yn teithio i Batagonia, ar ran yr Urdd, i gyflawni gwaith gwirfoddol yno. Mae'r tri yn hanu o bentref Bethel ac yr ydym yn sicr y bydd trigolion y pentref yn falch iawn ohonynt fel yr ydym yn Ysgol Brynrefail.

Bydd y tri yn teithio ym mis Hydref 2011 i gyflawni pythefnos o waith gwirfoddol. Fel Ysgol, yr ydym yn ymestyn ein llongyfarchiadau calonnog i'r tri ohonynt.

OND!!! Mae'r tri yn gorfod codi £2000 yr un tuag at eu treuliau sydd yn fenter anferthol. Fe fyddwn ni fel Ysgol yn gwneud ein gorau i'w helpu ond rydym yn gofyn hefyd ,yn garedig, am eich cymorth chi ddarllenwyr yr Eco. Yn unigolion, cymunedau, cymdeithasau, busnesau fe allwch gymhorthi drwy yrru cyfraniadau i'r Ysgol. Fe ellir gyfrannu arian parod neu sieciau yn daladwy i Ysgol Brynrefail.